
# Adroddiad Arolygu

**Arwel Williams**

**Penysarn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**




## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Chwefror 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt gydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth ac yn dewis yn hyderus o blith y gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r plant yn hyderus i gyfleu eu hanghenion ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau, a dysgu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn dda drwy amrywiaeth o weithgareddau. Caiff anghenion unigol eu diwallu'n llwyddiannus, ac mae'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau'n effeithiol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd sy'n ddiogel, sy'n lân ac mewn cyflwr da. Mae amrywiaeth wych o deganau, cyfarpar ac adnoddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n hybu sgiliau cymdeithasol, corfforol a creadigol y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei wasanaeth yn dda ac yn deall ei gyfrifoldebau rheoliadol.

Mae'n sicrhau bod ei hyfforddiant a'i wiriadau addasrwydd yn cael eu cadw'n gyfredol. Caiff y rhieni eu cadw'n gyfredol am ddatblygiad eu plant ac am unrhyw newidiadau i'r lleoliad.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn symud yn rhydd, gan ddewis pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt, a chaiff eu teimladau eu gwerthfawrogi'n barhaus. Er enghraifft, pan nad oedd plentyn eisiau cymryd rhan mewn gweithgaredd crefft, cynigiwyd gweithgaredd arall iddo ar unwaith. Gall y plant ddewis sut i dreulio eu hamser ac maent yn dewis eu teganau yn annibynnol gan eu bod wedi'u storio o fewn eu cyrraedd.

Mae gan y plant gydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn hyderus wrth fynd ato am gysur ac yn cael anogaeth gadarnhaol a mwythau pan fydd angen hynny. Er enghraifft, aethant at y gwarchodwr plant am gysur a mwythau pan roeddent wedi blino yn ystod y dydd. Mae'r plant yn hyderus wrth siarad â'r oedolion eraill sy'n ymweld â'r gwasanaeth am eu bod yn teimlo'n ddiogel. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn siarad â'i gilydd yn ystod amser cinio a chwarae, gan wenu a chwerthin yn aml.

Mae'r plant yn gyfeillgar ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r gwarchodwr plant a gyda'i gilydd. Maent yn rhannu teganau, yn aros eu tro ac yn cydweithio i gwblhau tasgau'n dda. Er enghraifft, gwnaethant ganolbwyntio'n dda yn ystod y gweithgaredd lle roeddent yn gwneud toes. Gwnaethant ddisgwyl yn amyneddgar am eu tro i fesur y blawd a'r halen, gan gyfrif gyda'i gilydd wrth iddynt eu mesur. Mae'r plant yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant am yr hyn y maent yn ei wneud, ac maent yn awyddus i'w gynnwys yn eu chwarae. Er enghraifft, dewisodd un plentyn i archwilio'r hambwrdd twff â thema'r môr iddo. Cododd gwahanol wrthrychau eu dewis, ac roeddent yn awyddus i ddangos y gwrthrychau hyn i'r gwarchodwr plant. Ar ôl i'r plentyn ddangos cragen iddo, gofynnodd y gwarchodwr plant iddo ei osod yn agos at ei glust i weld a oedd yn gallu clywed unrhyw synau o'r môr. Aeth y plentyn ati i wneud hyn gan wenu a dweud ei fod yn gallu clywed y tonnau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y plant ddigon o ddewis o weithgareddau ac maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau'r adnoddau a ddewiswyd ganddynt ac yn dewis chwarae ar eu pen eu hunain neu gyda'r plant eraill. Er enghraifft, gwnaeth grŵp o blant fwynhau chwarae gyda blociau. Roeddent yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd, gan drafod beth roeddent yn ei adeiladu a chyfarwyddo ei gilydd ar yr hyn i'w wneud nesaf. Agorodd un plentyn y bocs cerddoriaeth a thynnu'r offerynnau cerdd allan ohono. Roedd yn mwynhau clywed gwahanol synau'r offerynnau ac yn canolbwyntio'n dda i geisio gwneud gwahanol rythmau.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau a llawer o gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr agored. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, fel golchi eu dwylo a thacluso ar ôl ymgymryd â gweithgareddau. Mae hyn yn eu helpu i fagu hyder a hyrwyddo eu hannibyniaeth.

## Gofal a Datblygiad

**Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddo unrhyw bryderon am blentyn y mae'n gofalu amdano. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig diweddaraf, sy'n golygu ei fod yn barod i ddelio ag unrhyw ddamweiniau neu argyfyngau a all ddigwydd. Caiff unrhyw ddamweiniau eu dogfennu'n dda a'u llofnodi gan y rhieni, i ddangos eu bod wedi cael gwybod am y digwyddiad.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Mae'n sicrhau bod yr holl blant yn golchi eu dwylo pan fo'n briodol, megis ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta.

Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae'n siarad â nhw mewn ffordd garedig ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, cynigodd wahanol weithgareddau i'r plant pan roedd yn teimlo eu bod yn dechrau diflasu neu ddim yn ymgysylltu â'r gweithgareddau a oedd ar gael.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl y mae'n gwybod y bydd y plant yn eu mwynhau, gan gynnwys cymysgedd da o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Caiff nodiadau arsylwi ar gynnydd y plant eu cadw yn eu ffeiliau unigol, gan alluogi'r gwarchodwr plant i gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu camau dysgu nesaf. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am y gymuned y maent yn byw ynddi drwy dreulio llawer o amser yn ymweld â'r ardaloedd lleol, fel parciau a mannau o ddiddordeb, a grwpiau plant bach lleol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr eithriadol o dda y tu mewn a'r tu allan. Er enghraifft, caiff mynedfa'r lleoliad ei reoli. Caiff y drysau allanol eu cadw dan glo a gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Mae'r gwarchodwr yn cadw cofrestr gywir o bresenoldeb y plant, gan gynnwys amseroedd cyrraedd a gadael pob plentyn. Mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sy'n amlinellu'r peryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r peryglon hyn. Caiff gwiriadau dyddiol eu cwblhau cyn i'r plant gyrraedd y lleoliad bob bore, sy'n cynnwys gwirio'r ardaloedd a'r adnoddau a ddefnyddir gan y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth dda o ardaloedd chwarae a phrofiadau i'r plant. Gall y plant ddefnyddio caban dynodedig gyda dwy ystafell chwarae ynddo, ac mae digon o le yn y ddwy iddynt symud yn rhydd ac archwilio'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth ragorol o deganau ac adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Mae dewis helaeth o setiau chwarae pren, arddangosfeydd synhwyraidd ar y waliau wedi'u haddurno â gleiniau, drychau a darnau cerddoriaeth, yn ogystal â deunyddiau celf a chrefft. Mae'r teganau a'r gemau wedi'u trefnu'n dda fel y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod pob ardal yn groesawgar i'r plant a bod cynllun yr ystafelloedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda. Mae'r dodrefn a'r adnoddau ym mhob ystafell chwarae wedi cael ystyriaeth ofalus ac o faint addas ar gyfer oedrannau'r plant a fydd yn eu defnyddio. Mae'r toiledau yn cynnwys cyfleusterau addas, gyda sinciau a thoiledau isel i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn glanhau'r teganau a'r adnoddau yn rheolaidd, ac yn cofnodi hyn mewn cofnodlyfr dynodedig.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod digon o gyfleoedd rhagorol i'r plant archwilio deunyddiau naturiol, deunyddiau cynaliadwy a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Er enghraifft, roedd llawer o'r teganau wedi'u gwneud o bren a gwrthrychau go iawn, ac mae amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ar gael i'r plant eu harchwilio. Mae digon o le yn yr ardal chwarae awyr agored i'r plant chwarae ac archwilio ynddi, yn ogystal â defnyddio eu synhwyrau. Mae amrywiaeth rhagorol o weithgareddau ar gael yn yr ardd gan gynnwys ardal chwarae ddychmygol gyda chegin fwd o bren a dewis o gyllyll a ffyrc go iawn, ardal adeiladu, trawstiau cydbwyso, wal chwarae â dŵr gyda thiwbiau, ac ardal chwarae gerddorol gyda chlychau gwynt a ffyn taro.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau rheoliadol, ac mae amrywiaeth o bolisïau ganddo sy'n golygu ei fod yn gallu rhedeg ei wasanaeth yn ddiogel. Mae'r datganiad o ddiben yn llawn gwybodaeth, gan roi digon o wybodaeth i rieni wneud dewis ar sail gwybodaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth gan y rhieni a'r plant yn rheolaidd mewn amrywiaeth o ddulliau gwahanol, gan gynnwys holiaduron, arsylwadau ac adborth ar lafar. Mae'n amlinellu'r gwelliannau a wnaed hyd yma a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer gweddill y flwyddyn mewn adroddiad manwl ar yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Mae'r holiaduron adborth i rieni yn dangos eu bod yn fodlon iawn ar y lleoliad a'r gofal a ddarperir i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei gynorthwyydd ag ef yn cael hyfforddiant a chefnogaeth reolaidd er mwyn iddynt allu cyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae ei hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu yn gyfredol i gynnal dealltwriaeth dda o'r arferion cyfredol gorau yn yr agweddau hyn. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ffeil y cynorthwyydd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith. Mae'r cofnodion ysgrifenedig yn dangos y caiff arfarniadau blynyddol eu cwblhau a datganodd y gwarchodwr plant y caiff cyfarfodydd goruchwylio eu cynnal. Fodd bynnag, nid oes cofnod o hyn. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn gywir, ac felly caiff anghenion y plant eu diwallu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Roedd y cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant cyn iddynt ddod i'r lleoliad. Mae hyn yn ei alluogi i gynllunio'n effeithiol ac i weithio gyda theuluoedd i ddiwallu anghenion unigol y plant. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn drwy negeseuon preifat ac adborth ar lafar ar ddiwedd pob dydd. Caiff taflenni  “fy niwrnod” eu cwblhau er mwyn rhannu gwybodaeth â'r rhieni, fel pryd bu'r plant yn cysgu a phryd cafodd eu cewynnau eu newid. Mae tudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol ganddynt hefyd lle gall y rhieni weld lluniau o'u plant yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ystyried cadw cofnodion o'r cyfarfodydd goruchwylio fel tystiolaeth o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r camau gweithredu sy'n ofynnol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

oddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete